# Glanhau’r stablau a’r iard, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau'r stablau a'r iard, o dan oruchwyliaeth. Bydd glanhau yn cynnwys clirio, carthu a diheintio prif ardal yr iard, y domen dail, yr ystafell fwydo, yr ysgubor wellt/wair a'r ystafell harneisiau yn llawn.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud o dan gyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy ddarparu cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. clymu a datglymu'r ceffyl yn ddiogel
4. paratoi'r offer a'r gwely, o dan oruchwyliaeth
5. glanhau stablau a gwaredu gwastraff, o dan oruchwyliaeth
6. adnewyddu a storio offer yn gywir ar ôl ei ddefnyddio
7. gwirio bod y cyflenwad dwr ar gyfer y ceffyl yn lân
8. cadw'r iard ac ardaloedd eraill yn lân a chynnal a chadw'r domen dail, o dan oruchwyliaeth
9. glanhau draeniau arwyneb, o dan oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau bod dwr dros ben yn llifo'n rhydd
10. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â'r cyfarwyddiadau
11. hysbysu'r goruchwyliwr ynghylch unrhyw broblemau'n ymwneud â glanhau'r stablau a'r iard
12. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. gofynion sylfaenol lles ceffylau, yn cynnwys darparu porthiant a dwr
3. y mathau a dyfnder y gwely a ddefnyddir mewn stablau i gynnal iechyd a lles y ceffyl
4. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. sut i ymdrin â, clymu a datglymu ceffylau yn ddiogel
6. y dulliau cywir ar gyfer gwaredu gwastraff
7. y mathau, y defnydd cywir a'r ffordd gywir o storio offer a ddefnyddir i lanhau stablau ac ierdydd
8. y defnydd cywir a'r ffordd gywir o storio deunydd glanhau a'r gofynion diogelwch ar gyfer hyn
9. y mathau o beryglon a allai fod yn bresennol yn y stabl a'r iard
10. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch i les ceffylau
11. y goblygiadau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â draeniau a tomenni tail
12. eich cyfrifoldebau yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch

## Cwmpas/Ystod

Stablau glân:

- clirio allan
- carthu
- diheintio

## Geirfa

Gall y mathau o wely a ddefnyddir mewn stablau gynnwys:

- gwellt
- naddion
- papur
- matiau rwber
- deunyddiau eraill

Gall yr iard ac ardaloedd eraill gynnwys:

- prif ardal yr iard
- tomen dail
- ystafell fwydo
- gwellt/gwair
- sgubor/ardal
- ystafell harneisiau
- draeniau arwyneb

Glanhau’r stablau a’r iard, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq103 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; stablau; iard; diheintio; carthu |